Gwasanaeth Democrataidd
Democratig Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cofnodion o gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar **30 Gorffennaf 2014**
Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd**
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Owain Williams
Cyng. John Wyn Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Lewis Davies
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes
Cyng. John Arwel Roberts
Cyng. Nicola Roberts

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylchedd (CG) |
| Nia Davies | Rheolwr - UPCC |
| Bob Thomas | Arweinydd Tîm Tai & Chymunedau - UPCC |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Kenneth Hughes (CSYM)
Cyng. Gwen Griffith (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Gethin Glyn Williams (CG)
Cyng. Jeff Evans (Eilydd - CSYM)
Cyng. Dafydd Meurig (Eilydd - CG)
Jim Woodcock (CSYM)

1) **YMDDIHEURIADAU**
Fel y nodwyd.

2) **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Cafwyd datganiad gan Cyng. Owain Williams ar Eitem 5) Atodiad C , ond yn dilyn cyngor cyfreithiol yn y gorffennol, sydd yn rhoi hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau, arhosodd yn y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

3) **MATERION BRYS/MATERION YCHWANEGOL**
Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

4) **COFNODION**
Cynigwyd a nodwyd fod cofnodion cyfarfod Panel 18 Gorffennaf, 2014 yn gywir.

5) **ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISÏAU MANWL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:**
Cyflwynwyd adroddiad gan Nia Davies i gyflwyno fersiynau diwygiedig o'r Polisïau Strategol yn dilyn newidiadau a wnaed mewn canlyniad i'r cyfnod ymgynghori ar y ddogfen Hoff Strategaeth. Hefyd, cyflwynwyd geiriad drafft y polisïau manwl sydd yn deillio o'r Polisïau Strategol sydd i'w cynnwys o fewn y fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**ATODIAD A: BYW'N GYNALIADWY (POLISÏAU CYFFREDINOL)**

**PS1 - Datblygu Cynaliadwy**
Dim sylw.

**PS2 Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt**

**Sylwadau:**
- Gofynnwyd a oedd digon o drefniant ar gyfer newid hinsawdd ac yn sicrhau fod dim datblygiad yn digwydd mewn llefydd mewn peryg.

**Ymatebion:**
- Esboniwyd fod Maen Prawf (MP) 4 o fewn PS2 yn delio gyda datblygiadau mewn ardaloedd sydd dan fygythiad oherwydd effaith newid hinsawdd. Fe fydd polisi ychwanegol yn cael ei greu i ddelio gydag ardaloedd mewn risg eithafol.

**CYFF1 – Meini Prawf Datblygu**

**Sylwadau:**
- Gofynnwyd am ystyr 'Dwysedd Is' ym MP4, - a ydy o'n berthnasol i fflatiau?
- Gofynnwyd am ddiffiniad o MP5.
- MP7 – holwyd os ydy hyn yn cynnwys Clymog Siapan achos fod anawsterau'n codi oherwydd nad ydy datblygwyr ar adegau ddim yn eu difodi yn ystod cyfnod datblygu.

**Ymatebion:**
- Esboniwyd bod y canllaw yn berthnasol i ddatblygiadau sy'n cynnwys fflatiau ac mai canllaw yw dwysedd o 30 uned / hectar. Gall datblygiad fod yn is neu'n uwch yn dibynnu ar amgylchiadau'r safle a'r datblygiad.
- MP5 yn mynegi fod unedau preswyl yn cael eu datblygu mewn gofod addas - h.y. osgoi gorlenwi. Awgrymwyd i newid geirfa i 'gor-ddatblygu'.
- Ynglŷn â Chlymog Japan nid yw'n bosib creu polisi penodol ond fe ellir gosod amod ar ganiatâd cynllunio. Cytunwyd i ail-edrych ar yr eirfa.

**CYFF2 – Dylunio a Siapio Lle**

**Sylwadau:**
- Codwyd pwynt fod dylunio yn hynod o bwysig mewn ardal AHNE.

Cytunwyd i gefnogi CYFF2 heb newid geirfa.

**CYFF3 – Dylunio a Thirweddu**

**Sylwadau:**
- Holwyd os ydi CYFF3 yn ymwneud a phob datblygiad ac os fydd rhaid cwrdd â phob un o'r meini prawf?
- Rhoddwyd canmoliaeth am gryfder y polisïau a'r meini prawf.
- Gofynnwyd am blannu coed - oes modd arddweud pa fath o goed ellir eu plannu o gwmpas datblygiadau newydd? Hefyd, dylid cysidro math o goed a ddefnyddir oherwydd strwythur gwreiddiau eang mewn rhai mathau.
- Holwyd, ar ôl i ddatblygiad gael ei gwblhau pwy sydd yn gyfrifol am drin y coed?

**Ymatebion:**
- Esboniwyd ei fod yn angenrheidiol i unrhyw ddatblygiad gysidro tirlunio.
- Dywedyd fod MP5 ac MP9 yn delio gyda nodweddion plannu a'r math o blannu a chaniateir.

**CYFF4 – Rheoli Carbon**
Esboniwyd bod y Llywodraeth ar fin newid y polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol am rôl y system cynllunio i reoli a hyrwyddo safonau adeiladu ac y bydd angen ail-ymweld â rhan o bolisi manwl CYFF4.

**Sylwadau:**
- Gofynnir a fydd y polisi yma yn berthnasol i adeiladau bwrdeistrefol?
- Codwyd pryderon ynglŷn â chostau yn codi i ddatblygwyr.
- Codwyd pwynt ynglŷn â geirfa CYFF4 - 1c) 'sympathetig'

**Ymatebion:**
- Mae Polisi CYFF4 yn berthnasol i bob adeilad.
- Esboniwyd ynglŷn â chostau'r datblygwyr fod y polisi yma yn ofyniad cenedlaethol trwy reoliadau adeiladu ac yn y pen draw bydd costau cynhesu a goleuo'r adeiladau'n rhatach.
- Cytunwyd i ail-edrych ar eirfa 1c)
- Bydd Polisi CYFF4 yn cael ei ailgyflwyno ar ôl dadansoddi'r newidiadau i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol..

**CYFF5 – Cadwraeth Dŵr**

**Sylwadau:**
- Holwyd os oes ffynnon ddŵr ar safle, a fuasai hyn yn berthnasol i'r polisi manwl yma?

**Ymatebion:**
- Eglurwyd fod ffynhonnau dŵr yn berthnasol i bolisi manwl CYFF5.

**ATODIAD B: TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD**

**PS22 - Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**
Esboniwyd fod rhestr o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n golygu nad oes angen eu hail-adrodd drwy weddill y ddogfen.

**TRA1 – Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant**

**Sylwadau:**

- Ynglŷn â 'Cerdded a Beicio', yn y gorffennol roedd llwybr yn mynd i gael ei greu o Fiwmares i Borthaethwy ond oherwydd arbedion nid yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Pa fath o ddatblygiad fuasai yn debygol o dan Maen Prawf (MP) 2 rhif 7 sef cyfleusterau cyfnewidfa ar gyfer cludiant ar ddŵr.
- Nodwyd fod y meini prawf ar y cyfan yn syniadau da ond teimlwyd nad ydy amryw ohonynt yn berthnasol i gefn gwlad.

**Ymatebion:**

- Esboniwyd rydym yn gallu cael polisïau mewn lle i sicrhau fod trafodaethau yn cymryd lle gydag Adran Trafnidiaeth.
- O ran MP2) rhif 7 cyfeiriwyd at harbwr Caergybi a Glanfa Porth Penrhyn fel enghreifftiau o lefydd i drosglwyddo nwyddau o'r mor i'r tir, neu fel arall, a'r angen i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas i'r pwrpas.
- Nodwyd y sylw am yr angen i sicrhau fod y polisi'n adlewyrchu gofynion ardaloedd gwledig.

**TRA2 – Safonau Parcio**

**Sylwadau:**

- Ynglŷn â TRA2 cafwyd sylw fod y polisi manwl yn wych mewn egwyddor ond ydy'r polisi yma ddigon realistig i'w weithredu?
- Gwnaed sylw tra bod yr angen i hyrwyddo cerdded a beicio - mae rhaid cofio am yr angen i ddefnyddio moduron hefyd.

**Ymatebion:**

- Nodwyd y bydd yr Adran Trafnidiaeth yn cael cyfle i wneud sylwadau cyn cwblhau'r polisi.

**TRA3 – Diogelu Rheilffyrdd Segur**

**Sylwadau:**

- Cytunwyd gyda'r polisi manwl yma, ond cafwyd sylw nad all fod yn bolisi cyffredinol oherwydd bod rhannau o rai rheilffyrdd wedi diflannu am byth.

**Ymatebion:**

- Byddai angen edrych ar bob lein ar sail achos wrth achos ond cytunwyd i ail-edrych ar yr eirfa.

**TRA4 – Rheoli Ardrawiadau Cludiant**

**Sylwadau:**

- MP8 - angen dileu'r gair 'a'.
- Mae rhaid nodi fod marchogaeth yn rhan bwysig o dwristiaeth a bod yna ddiffyg llwybrau marchogaeth.

**Ymatebion:**

- Cytunwyd fod angen dileu'r gair 'a' o fewn MP8.
- Nodwyd y sylw am farchogaeth.

**ATODIAD C: POLISI TWR/5**

Mae TWR/5 wedi ei ddiwygio i gyfuno dau bolisi gwreiddiol, felly, mae'r holl feini prawf wedi eu rhestru mewn un polisi.

**Sylwadau:**

- Gofynnwyd os ellir newid ychydig ar eiriad y polisi i egluro'n glir mai strwythurau symudol sydd dan sylw ac y bydd rhai gwahanol yn dod o dan y polisi carafanau a siales.
- Mynegwyd yr angen i beidio rhoi gormodaeth o gyfyngiadau ar fusnesau lleol ac yr angen i ddeall sut maent yn gweithredu.

**Ymatebion:**

- Cytunwyd i edrych ar yr eirfa'n unol a'r awgrymiad.
- Nodwyd y sylw am yr angen i beidio llesteirio busnesau lleol.